Cartrefi Caerffili
Rhifyn y Gwanwyn 13 2019

# Trawsnewid cymunedau




Gwaith yn dechrau yn Nelson

Mae cymunedau ledled y fwrdeistref sirol yn cael eu trawsnewid diolch i raglen Gwelliannau Amgylcheddol Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

**yourccbchomes**
Dilynwch ni ar Twitter.

**yourcaerphillyhomes**
'Hoffwch' ni ar Facebook.

Bydd rhaglen Gwelliannau Amgylcheddol SATC yn gweld dros £10 miliwn yn cael eu buddsoddi er mwyn gwella'r cymunedau lle mae ein tenantiaid yn byw. Penderfynwyd ar welliannau ar gyfer pob ardal drwy ymgysylltu â'r gymuned leol.

Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes

CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

## Parhad



Pobl ifanc yn mwynhau'r parc sglefrfyrddio newydd yn Rhisga

Ym mis Chwefror agorwyd parc sglefrfyrddio newydd yn Rhisga. Mae tua £90,000 wedi'u buddsoddi mewn gwella'r Parc yn Nhŷ Sign, a wnaed yn bosibl drwy arian cyfatebol o raglen Gwelliannau Amgylcheddol Safon Ansawdd Tai Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac ymdrechion grŵp cymunedol, Chwarae a Dysgu Rhisga, i godi arian yn lleol. Darparwyd cyllid hefyd gan Adran Parciau'r Cyngor, gan gynnwys arian a gafwyd drwy gytundebau cynllunio gyda datblygwyr yn yr ardal.

Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar barc sglefrfyrddio newydd ym Mhen-yr-heol, Caerffili ynghyd â gosod campfa awyr agored a gwneud gwelliannau ym mharc chwarae'r plant. Bydd tua £260,000 yn cael eu buddsoddi mewn gwelliannau amgylcheddol ym Mhen-yr-heol, gan gynnwys y lleoedd parcio ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer trigolion Gellideg a Phen-y-bryn. Mae Cyngor Cymuned Pen-yr-heol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn hefyd wedi cyfrannu £15,000 ar gyfer gwelliannau i'r parc sglefrfyrddio, ynghyd â £2,225 o Gyllideb y Fforwm Ardal.

Ym mis Mawrth hefyd fe ddechreuodd y gwaith ar raglen wella a fydd yn golygu buddsoddiad o £410,000 yn ardal Nelson. Mae'r gwelliannau'n cynnwys ychwanegu llwybrau ar ystâd Maes Mabon Nelson er mwyn creu llwybrau mynediad mwy diogel ar gyfer cerddwyr, gwell mynediad i bobl anabl a mesurau i atal cerbydau oddi ar y ffordd rhag mynd i'r ardal ger y parc. Bydd yr ardal hefyd yn elwa o ardal chwaraeon amlddefnydd a pherllan gymunedol.

# Newidiadau i raglen Safon Ansawdd Tai Cymru



Ar 13 Mawrth, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddiwygiadau i raglen wella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Gwnaed y newidiadau hyn gyda'r nod o sicrhau bod y safon yn cael ei bodloni'n llawn erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru, sef Rhagfyr 2020.

Mae'r diwygiadau'n cynnwys cynnydd yng nghyfanswm buddsoddiad rhagamcanol y rhaglen o £220 i £250 miliwn. Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd drwy arolygon cyfredol o eiddo ac adolygu costau contractau diweddar.

Cymeradwyodd y Cabinet hefyd ail-broffilio'r rhaglen SATC; mae hyn yn golygu y bydd tenantiaid mewn rhai ardaloedd yn derbyn gwelliannau yn hwyrach na'r disgwyl. Daw'r newidiadau o ganlyniad i nifer o amgylchiadau sy'n newid o ran cyflawni'r rhaglen, gan gynnwys colli dau gontractwr a'r angen am waith ychwanegol yn codi'n annisgwyl. Ymddiheurwn wrth yr holl denantiaid y mae hyn yn effeithio arnynt am yr oedi annisgwyl hwn.

Mae'r rhaglen wedi'i diweddaru i'w gweld gyda'r cylchlythyr hwn, ac mae copi i'w weld hefyd ar wefan y Cyngor: https://caerphilly.gov.uk/Services/Housing/Repairs,-adaptations-and-improvements?lang=cy-gb



# Lansio llyfrgell offer Rhisga



Y Llyfrgell offer yn lansio yn Heol y Celyn, Rhisga

Mae llyfrgell offer cymunedol wedi cael ei lansio yn Nhŷ Sign, Rhisga diolch i bartneriaeth rhwng Cartrefi Caerffili, tîm Adfywio Cymunedol y Cyngor, Gofal ac arbenigwyr ynni ac adfywio, ENGIE.

Bellach, bydd trigolion yn gallu cael mynediad hawdd at yr offer sydd eu hangen arnynt i gynnal mân waith cynnal a chadw yn eu cartrefi gan helpu i wneud gwelliannau yn y cartref yn fwy fforddiadwy i'r rhai ar incwm is.

Roedd offer llaw yn rhodd gan ENGIE, un o'r contractwyr a benodwyd gan y Cyngor i helpu i gyflawni ein rhaglen wella Safon Ansawdd Tai Cymru.

I fenthyg offer, gall trigolion ymweld â'r ganolfan gymunedol yn 51 Heol y Celyn, Tŷ Sign rhwng 10am a 4pm bob dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau. Gall trigolion hefyd fanteisio ar amrywiaeth o gymorth a chyngor gan swyddfa Heol y Celyn, gan gynnwys cymorth gyda budd-daliadau, help i ddod o hyd i gyflogaeth a chyngor ar dai.

# Pwls Tenantiaid

Mae Pwls Tenantiaid yn arolwg a gynhelir ledled Cymru ar gyfer pobl sy'n rhentu. Maen nhw eisiau cael eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi am eich cartref.

Mae Pwls Tenantiaid:

- Yn rhad ac am ddim ac yn hawdd i'w gwblhau
- Ar gael ar-lein neu drwy'r post
- Yn rheolaidd gyda phum arolwg y flwyddyn
- Yn ddienw

Mae'n agored i bobl sy'n rhentu gan gynghorau, cymdeithasau tai neu sydd mewn llety â chymorth. Maent yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau fel atgyweiriadau, diogelwch tân, tai fforddiadwy a gwerth am arian.

Mae canlyniadau pob un o'u harolygon yn mynd i Lywodraeth Cymru neu i Gorff Rheoleiddio Tai Cymru, fel y gallant newid polisïau tai. Gallwch ymuno â Pwls Tenantiaid drwy ddilyn y ddolen hon: www.tpas.cymru/about/tenantpulse, fel arall, gallwch gysylltu â Lewis Greenaway ar 02920 237303.

**Cynnig ymuno: Bydd pawb sy'n ymuno â Pwls Tenantiaid yn cael eu cynnwys mewn raffl bob mis i ennill £20 o dalebau siopau'r stryd fawr.**

# Gweddnewid Canolfan Ieuenctid Cefn Hengoed




Canolfan Ieuenctid Cefn Hengoed

Mae Canolfan Ieuenctid Cefn Hengoed wedi derbyn £11,000 o welliannau, gan gynnwys uwchraddio WiFi/mynediad i'r rhyngrwyd, gosod meinciau gwaith wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer offer TG ac addurniadau mewnol diolch i'r Gronfa Gyflogaeth sy'n ffurfio rhan o'n rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Yn ogystal â gwella'r cyfleuster ar gyfer y gymuned leol, mae'r gwelliannau wedi galluogi timau'r cyngor sy'n gyfrifol am gyflawni rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, i gynnig sesiynau cymorth cyflogaeth wythnosol yn y ganolfan.

Cynhelir y sesiynau galw i mewn bob dydd Mercher ac maent yn cynnig apwyntiadau un-i-un, yn ogystal â chymorth gyda chwilio am swydd, creu CVs, cwblhau ceisiadau am swyddi, sgiliau digidol a chymorth lles. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn rhedeg gwasanaeth allgymorth ar yr un pryd.

Rheolir y Ganolfan Ieuenctid gan bwyllgor o wirfoddolwyr ac, yn ogystal â chynnal clwb ieuenctid wythnosol, defnyddir grwpiau cymunedol lleol hefyd fel man cyfarfod.

# Yn dod i'ch strydoedd lleol!

Edrychwch allan am ein Swyddogion Amgylcheddol SATC a Chyfranogiad Tenantiaid a fydd yn ymweld â'ch strydoedd lleol dros y misoedd nesaf.

Bydd ein Swyddogion yn cynnal arolygon byr i ganfod eich barn am y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd ac i weld sut gallwn eich annog chi i gymryd rhan wrth lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd ein swyddogion yn hawdd i'w hadnabod a bydd ganddynt ddigon o wybodaeth i'w rhannu â chi. Dewch draw i'n gweld ni i ddweud helo!



# Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae hysbysiadau preifatrwydd yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth, gan gynnwys:

- Pam mae ei hangen arnom
- Gyda phwy y byddwn yn ei rhannu
- Pa mor hir caiff ei chadw

## Hysbysiad preifatrwydd cryno Cartrefi Caerffili

Bydd Cartrefi Caerffili yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth amdanoch, er mwyn eich galluogi i reoli eich tenantiaeth tai a/neu garej yn llwyddiannus ac ymdrin â'r arian sy'n gysylltiedig â'r denantiaeth honno. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cyfle i chi gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu/cynnwys tenantiaid. Byddwn hefyd yn cofnodi ac yn prosesu gwybodaeth am bobl eraill sy'n byw gyda chi i sicrhau nad yw'r eiddo'n orlawn ac i asesu materion rheoli tenantiaeth eraill sy'n ymwneud â phobl eraill yn eich cartref. Gall fod adegau pan fyddwn yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth am bobl nad ydynt yn denantiaid, er mwyn rheoli cyswllt ganddynt neu mewn perthynas â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu eich gwybodaeth yn dasg gyhoeddus, yn rhwymedigaeth gytundebol ac yn ddiddordeb dilys. Byddwn yn cadw gwybodaeth sy'n ymwneud â thenantiaeth cyhyd ag y bo'r contract yn weithredol neu lle mae arian yn ddyledus ar gyfrif sy'n gysylltiedig â thenantiaeth ac am gyfnod o 7 mlynedd o leiaf ar ôl terfynu'r denantiaeth.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i wefan y Cyngor: https://caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information?lang=cy-gb

# Atgyweiriadau y gellir ailgodi tâl amdanynt

Fel landlord, mae gennym rwymedigaeth i gadw ein stoc dai mewn cyflwr da. Byddwn yn gwneud hyn pan roddir gwybod am atgyweiriadau, heb unrhyw gost i'r tenant, ar yr amod bod y gwaith atgyweirio yn gyfrifoldeb i'r landlord a'i fod yn angenrheidiol oherwydd treuliad naturiol rhesymol. Mae hyn fel arfer yn golygu pan fo'r eitem neu'r ffitiad wedi treulio neu wedi dod i ddiwedd ei oes naturiol.

Mae'r rhan fwyaf o denantiaid yn cadw eu cartrefi mewn cyflwr da ond mae rhai yn achosi difrod yn fwriadol neu drwy esgeulustod. Lle mae angen gwaith o'r fath, rydym yn galw'r atgyweiriadau hyn yn rhai y gellir ailgodi tâl amdanynt.

Mae pethau eraill y byddwn yn codi ffi ar denantiaid amdanynt yn cynnwys peidio â bod gartref pan fyddwn yn galw am apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw, difrod troseddol, camddefnyddio'r gwasanaeth brys y tu allan i oriau arferol ac atgyweiriadau sy'n gyfrifoldeb cynnal a chadw i'r tenant.

Ceir rhagor o wybodaeth yn eich llawlyfr i denantiaid, drwy chwilio drwy 'polisi atgyweiriadau y gellir ailgodi tâl amdanynt' yn caerffili.gov.uk neu drwy gysylltu â'ch swyddfa dai leol.

# Newidiadau i ddewisiadau lliw cegin

Pan fydd tenantiaid yn derbyn diweddariadau cegin fel rhan o raglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) Cartrefi Caerffili, cânt y cyfle i ddewis o dri lliw uned cegin a thri lliw i'r arwyneb gwaith.

Yn ddiweddar, penderfynodd y gwneuthurwr cegin a ddewiswyd gan Gartrefi Caerffili resymoli ei gynnyrch ac, o ganlyniad, nid yw'n cynnig cegin Beech ac arwyneb gwaith Aztec Granite mwyach. Mae'r newyddion hyn wedi dod ar adeg dyngedfennol yn ein rhaglen SATC, felly nid yw'n ddelfrydol.

Fodd bynnag, rydym am sicrhau'r tenantiaid ein bod yn dal i allu cynnig tri dewis o liwiau ar gyfer unedau arwynebau gwaith. Erbyn hyn mae Rosewood wedi disodli Beech ar gyfer unedau ac mae Aticos Gold wedi disodli'r arwyneb gwaith Aztec Granite. Mae'r ddau liw yn cyfannu dewisiadau presennol y lloriau a'r teils. Bydd samplau'n cael eu dangos i chi yn ystod arolwg eich cartref.

# Diogelu eich cartref



Ydych chi wedi meddwl am yr hyn fyddai'n digwydd pe baech chi'n colli eich eiddo o gwbl, er enghraifft mewn tân, drwy ladrad neu o ganlyniad i bibell ddŵr yn byrstio?

Er mwyn rhoi tawelwch meddwl, gallwn ddarparu yswiriant cynnwys cartref i denantiaid cyngor y gellir ei dalu bob wythnos gyda'ch rhent.

Heb unrhyw ffi i'w dalu ar ben tâl y polisi safonol, ac yn darparu yswiriant ar sail "newydd ar gyfer hen" ar y rhan fwyaf o eitemau, a allwch chi fforddio peidio â threfnu yswiriant?

## Faint mae'n ei gostio?

Bydd hyn yn dibynnu ar y swm y bydd angen i chi ei yswirio. Wrth ystyried faint i'w yswirio, bydd angen i chi weithio allan faint y byddai'n ei gostio i brynu eich holl gynnwys eto.

Mae'r yswiriant yn cychwyn o ddim ond 40c yr wythnos am £5000 ar y polisi safonol.

Mae yswiriant llawn ar gyfer difrod damweiniol hefyd ar gael o gyn lleied â 63c yr wythnos, a dim ond £25 ar gyfer tâl ar ben yr yswiriant, ac ar gyfer premiwm ychwanegol dewisol, gallwch hefyd yswirio'ch eiddo i ffwrdd o'r cartref, eich cadeiriau olwyn neu'ch sgwteri symudedd a'ch cymhorthion clywed.

## Sut i wneud cais

I wneud cais gallwch gysylltu â'n Hadran Rhenti ar 01443 811450 neu drwy anfon e-bost at rhenti@caerffili.gov.uk. Gallwch hefyd gasglu ffurflen o'ch swyddfa dai leol neu argraffwch un o'n gwefan https://caerphilly.gov.uk/Services/Housing/Current-council-tenants/Home-contents-insurance?lang=cy-gb

# Cyhoeddi gwelliannau yn y cynllun tai lloches



Cyflwyno'r allwedd i Mr Salmon ar gyfer y lolfa gymunedol ar ei newydd wedd gan Rob Taylor, Fforman, SATC

Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu dadorchuddio gwelliannau i'r lolfa gymunedol yn un o'n cynlluniau tai yn ddiweddar.

Cynhaliodd trigolion Cwrt Gwyddon a The Ranks yn Abercarn y digwyddiad i nodi bod gwelliannau helaeth wedi'u cynnal yn y cynllun fel rhan o'n rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Gwnaed gwelliannau yng nghartrefi tenantiaid, yn ogystal ag yn ardaloedd cymunedol y cynllun.

Dywedodd Mrs Joan Salmon, tenant yng Nghwrt Gwyddon, "Roeddem yn hapus iawn gyda'r gwaith SATC. Mae ein cegin wedi'i hailwneud a'n hystafell ymolchi yn rhannol, gydag ailweirio trydanol a gwres canolog newydd, a drysau tân newydd. Cawsom ein symud i fflat wahanol yn yr adeilad tra'r oedd y gwaith yn cael ei wneud ac roeddem ychydig yn bryderus ar y dechrau, ond roedd y staff yn barod iawn i helpu ac roedd y cyfnod pontio'n haws o'r herwydd."

Ychwanegodd Mrs Ann Mantle, sydd hefyd yn byw yng Nghwrt Gwyddon, "Aeth y gweithwyr a ddaeth yma ar gyfer y gwaith SATC y tu hwnt i'r gofyn. Mae fy nghegin a'm hystafell ymolchi wedi'u gwella yn ogystal â'r lolfa gymunedol yn yr adeilad a oedd hefyd yn cael ei huwchraddio. Roedd y gwelliannau i'r lolfa gymunedol yn fuddiol iawn gan ein bod yn cynnal llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol yno. Anfonais lythyr at yr holl staff a oedd yn rhan o'r gwaith gan ddweud diolch yn fawr am eu holl waith."



Cwrt Gwyddon – cyn



Llys Gwyddon – ar ôl


# Lansio menter tai newydd Caerffili

Lansiwyd menter tai newydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili sy'n anelu at helpu landlordiaid preifat i ddod o hyd i denantiaid hirdymor ar gyfer eu heiddo, gan atal digartrefedd ar yr un pryd.

Mae prosiect Allweddi Caerffili yn cael ei arwain gan y tîm Gwasanaethau Tai yng Nghartrefi Caerffili, a dreialodd y cynllun i ddechrau ym mis Awst 2018.

Drwy'r cynllun, mae tîm Allweddi Caerffili yn paru pobl ag eiddo addas ac yna'n gweithio gyda'r tenant a'r landlord i gynnal y denantiaeth. Darperir y gwasanaeth yn rhad ac am ddim, gyda dangosiadau ac ymweliadau monitro chwarterol yn cael eu trefnu gan dîm Allweddi Caerffili.

Dywedodd Derek Walsh, landlord preifat sydd ar hyn o bryd yn rhentu eiddo drwy Allweddi Caerffili, "cyn ymuno ag Allweddi Caerffili, roeddwn wedi ystyried gwerthu fy eiddo oherwydd problemau a gefais gyda thenantiaid blaenorol. Mae rhentu fy eiddo drwy Allweddi Caerffili yn rhoi tawelwch meddwl i mi bod fy nhenant yn cael cymorth gan dîm y Cyngor. Rwyf hefyd yn falch o fod yn rhoi cartref i rywun a fyddai fel arall yn ddigartref. Ar ôl treulio blynyddoedd lawer fel gofalwr maeth, mae rhoi help llaw i eraill yn bwysig iawn i mi."


Derek Walsh

Dylai landlordiaid preifat sydd â diddordeb mewn rhentu eu heiddo drwy'r cynllun gysylltu â thîm Allweddi Caerffili y Cyngor ar 01443 873564 neu drwy anfon e-bost at allweddicaerffili@caerffili.gov.uk

# Byddwch yn wyliadwrus o bobl sy'n galw ar hap

Hoffem rybuddio tenantiaid i fod yn ymwybodol o bobl sy'n galw ar hap.

Daw'r neges ar ôl i nifer o denantiaid Cartrefi Caerffili gael gwybod y gallant wynebu costau cyfreithiol ar ôl llofnodi cytundebau â galwyr ar stepen y drws. Cysylltwch â'ch swyddfa dai leol neu dîm Yswiriant y Cyngor am gyngor os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch galwyr i'ch cartref.

Dywedodd y Cynghorydd Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi a Lleoedd, "Rydym wedi gweld nifer o achosion lle mae tenantiaid yn canfod bod ganddynt filiau cyfreithiol mawr i'w talu o ganlyniad i lofnodi dogfennau gyda galwyr ar stepen y drws sydd wedi honni eu bod yn gallu eu cefnogi gyda materion yn ymwneud ag atgyweiriadau. Efallai na fydd y galwyr hyn yn bobl onest, ac mae'r Cyngor yn annog tenantiaid i ofyn am gyngor gan swyddogion cyn llofnodi unrhyw ddogfennau."

Gall tenantiaid hefyd ofyn am sticeri 'dim galw diwahoddiad' ar gyfer eu ffenestri a'u drysau drwy gysylltu â'u swyddfa dai leol.



# Symud tŷ?



## Beth sydd angen i chi ei wneud a sut i osgoi unrhyw broblemau annisgwyl

Efallai eich bod wedi penderfynu symud cartref am nifer o resymau ac os ydych yn symud i eiddo cyngor arall, i un sy'n eiddo i landlord arall neu'n prynu eich cartref eich hun, mae rhai pethau y mae angen i chi eu gwneud ymlaen llaw.

Cofiwch – os ydych yn cyfnewid eiddo â rhywun arall, rhaid i chi gael caniatâd yn gyntaf gan eich landlordiaid.

Cynghorion craff cyn i chi symud:

- Mae'n rhaid i chi roi o leiaf 4 wythnos o rybudd i ni – mae angen i hyn fod yn rhybudd ysgrifenedig i'ch swyddfa tai leol. Os byddwch yn gadael eich cartref cyn dyddiad diwedd y denantiaeth, fel arfer codir tâl arnoch am yr holl rent hyd nes y bydd y cyfnod o 4 wythnos yn dod i ben.
- Gadewch i ni wybod eich cyfeiriad nesaf – fel y gallwn gysylltu â chi yn y dyfodol, os bydd angen. Er enghraifft, os oes angen i ni ddychwelyd unrhyw ordaliad.
- Sicrhewch fod taliadau eich cyfrif rhent yn gyfredol – os byddwch yn gadael unrhyw ddyled ar ddiwedd eich tenantiaeth, byddwn yn mynd ati i geisio adennill hyn oddi wrthych.
- Sicrhewch fod eich cartref yn lân ac yn daclus a'i fod mewn cyflwr da – os oes rhaid i ni lanhau, gwaredu sbwriel rydych wedi'i adael ar ôl neu drwsio unrhyw ddifrod i'r eiddo, mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw waith a wnawn.
- Pan fyddwch yn gadael, rhaid i bawb a oedd yn byw yn yr eiddo gyda chi (gan gynnwys anifeiliaid anwes!) symud allan.
- Pe baech chi'n gwneud unrhyw welliannau eich hun, rhaid i chi naill ai adael yr eiddo fel y mae, neu ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol. Rhaid gadael rhai gwelliannau, megis gwres canolog. Cysylltwch â'ch swyddfa dai am fwy o gyngor.



*Er ein bod yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn yn gywir, weithiau gall rhai pethau fod yn anghywir; Holwch ni yn gyntaf bob tro!*